**CYNNIG EWYLLYS OCTOPUS LEGACY RHAD AC AM DDIM YR ALZHEIMER'S SOCIETY (Ar-lein, Dros y Ffôn, Galwad Fideo)**

**TERMAU AC AMODAU CEFNOGWYR**

1. Mae'r Alzheimer's Society wedi partneru gydag Octopus Legacy i gynnig cyfle i gefnogwyr ysgrifennu eu hewyllys am ddim gan ddefnyddio'r gwasanaeth. Bydd yr Alzheimer's Society yn rhoi cod talebau i'r cefnogwr y gellir ei adbrynu wrth y ddesg dalu ar wefan Octopus Legacy, neu wrth ddefnyddio gwasanaeth ysgrifennu Ewyllysiau dros y ffôn neu alwad fideo Octopus Legacy, i dalu am gost Ewyllys.

2. Ni fyddwch yn gallu cael Ewyllys am ddim gan Octopus Legacy oni bai eich bod yn cytuno i'w Telerau ac Amodau nhw eu hunain. Mae'n werth nodi:

- Rhaid i chi fod yn 18 oed neu'n hŷn i ddefnyddio'r gwasanaeth.
- Mae'r gwasanaeth ysgrifennu ewyllysiau dim ond ar gael yng Nghymru a Lloegr. Os ydych yn byw yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon, lle nad yw Octopus Legacy yn gallu darparu'r gwasanaeth hwn, gallant eich cyfeirio at un o'i bartneriaid annibynnol yn eich ardal chi, a all ddarparu gwasanaeth ysgrifennu Ewyllysiau ar wahân.
- Nid oes rheidrwydd ar ddefnyddwyr y gwasanaeth i adael rhodd i'r Alzheimer's Society.
- Gall Octopus Legacy brosesu eich data personol gan ddibynnu ar ei fuddiannau cyfreithlon ei hun a'r Alzheimer's Society, a rhannu gwybodaeth sylfaenol amdanoch chi er mwyn caniatáu i'r Alzheimer's Society asesu llwyddiant yr ymgyrchoedd etifeddiaeth maen nhw'n eu rhedeg gyda ni, ac i ddiweddaru eu cronfeydd data cefnogwyr. Mae hyn yn cynnwys eich enw, e-bost, cyfeiriad post, ystod rhoddion (os yw'n berthnasol), dyddiad geni, statws priodasol, a dyddiad cyflwyno eich Ewyllys. Gallwch ddarllen mwy am sut mae eich data personol yn cael ei drin yn Hysbysiad Preifatrwydd Octopus Legacy neu yn Hysbysiad Preifatrwydd yr Alzheimer's Society.
- Gallwch ddewis, wrth y ddesg dalu, i optio i mewn i wneud newidiadau diderfyn i'ch Ewyllys yn y dyfodol, ar gost o £10 y flwyddyn i chi am y gwasanaeth ar-lein, a £30 y flwyddyn ar gyfer gwasanaethau ffôn/fideo. Gallwch ddewis peidio ag optio i mewn i'r gwasanaeth hwn, ac yn yr achos hwnnw ni chodir tâl arnoch. Os byddwch yn dewis ymuno â'r gwasanaeth Diweddariadau Diderfyn hwn, allwch optio allan ar unrhyw adeg cyn codir tâl arnoch, trwy eich dangosfwrdd ar-lein trwy fynd i "Fy Ewyllys" a "Rheoli fy Nhanysgrifiad". Os oes angen unrhyw help arnoch i wneud hyn, cysylltwch ag Octopus Legacy drwy ffonio 020 4525 3605 neu e-bostio

hello@octopuslegacy.com. Nid yw'r Alzheimer's Society yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am daliadau a godir.

3. Mae'r Alzheimer's Society yn cadw'r hawl i dynnu'r cynnig Ewyllys rhad ac am ddim hwn yn ôl ar unrhyw adeg.

4. Mae'r cynnig ewyllys Octopus Legacy rhad ac am ddim hwn gan yr Alzheimer's Society ar wahân i'r cynllun Ewyllys i Gofio* a gynigir hefyd gan yr Alzheimer's Society, sy'n cynnig ewyllys syml am ddim gan ddefnyddio cyfreithiwr lleol sy'n cymryd rhan, gan baratoi'r ewyllys all-lein. Ni ellir defnyddio'r cynigion ar y cyd.

5. Mae'r Alzheimer's Society yn talu cyfradd is i Octopus Legacy i gefnogwyr ysgrifennu ewyllys syml heb unrhyw dâl iddynt, gan fod hyn yn helpu i gynyddu'r rhoddion a adewir yn y dyfodol mewn Ewyllysiau i'r elusen ac yn cynrychioli elw hirdymor da ar fuddsoddiad.

6. Mae'r cynnig hwn yn cwmpasu cost Ewyllys syml i unigolyn neu Ewyllys syml i gwpl, wedi'i ysgrifennu gan ddefnyddio gwasanaeth ar-lein, ffôn neu alwadau fideo Octopus Legacy. Os yw eich atebion i'r cwestiynau ar wefan Octopus Legacy yn awgrymu bod angen ewyllys fwy cymhleth arnoch, efallai y byddant yn eich cyfeirio at eu gwasanaeth ysgrifennu ewyllysiau dros y ffôn neu dros alwad fideo. Mae'r cynnig am ddim yn cwmpasu Ewyllys syml yn unig. Efallai y bydd Ewyllys mwy cymhleth yn costio mwy, a bydd Octopus Legacy yn gwneud unrhyw gost ychwanegol yn glir i chi cyn i chi symud ymlaen, fel y gallwch ddewis a ddylid bwrw ymlaen ai peidio. Nid ydym yn talu unrhyw gostau ychwanegol uwchben yr hyn a gwmpesir gan eich cod talebau, gan nad yw hyn yn gost-effeithiol i'r elusen. Os yw costau ysgrifennu eich Ewyllys yn fwy na'r swm a gwmpesir gan eich taleb, chi sy'n gyfrifol am y swm ychwanegol, nodwch hyn pan fyddwch yn ychwanegu eich taleb wrth y ddesg dalu ar-lein neu os cewch ddyfynbris dros y ffôn neu dros alwad fideo.*

7. **Nodwch mai Octopus Legacy yn unig, nid yr Alzheimer's Society, sy'n darparu'r gwasanaeth ysgrifennu ewyllysiau, a chyfrifoldeb y gwasanaeth yw Octopus Legacy.** Mae Octopus Legacy yn annibynnol o'r Alzheimer's Society ac nid yw cymryd rhan yn y cynnig ewyllys rhad ac am ddim hwn yn awgrymu argymhelliad gan yr Alzheimer's Society. Gwiriwch y Telerau ac Amodau sy'n berthnasol i Octopus Legacy cyn i chi wneud cais.

8. Ein cyfeiriad cofrestredig yw: Alzheimer's Society, 43-44 Crutched Friars, Llundain, EC3N 2AE

9. Mae'r Alzheimer's Society yn elusen gofrestredig rhif 296645. Cwmni cyfyngedig drwy warant ac wedi'i gofrestru yn Lloegr, Rhif 2115499

10. Mae Octopus Legacy Limited yn gwmni sydd wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr (rhif 11111047) gyda'i swyddfa gofrestredig yn 22 Southwark Bridge Road, Llundain, Lloegr, SE1 9HF.

*Os oes angen cyngor cyfreithiol arnoch neu os hoffech drafod eich ystâd gyda chyfreithiwr a reoleiddir gan yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr, efallai y

byddwch am ddefnyddio ein cynllun Ewyllys i Gofio sydd yn lle hynny yn cynnig Ewyllys syml am ddim gyda chyfreithiwr lleol sy'n cymryd rhan.

**Cysylltwch â ni**

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr Alzheimer's Society, am y cynnig Ewyllys am ddim hwn, ein cynllun Ewyllys i Gofio ar wahân, neu Roddion mewn Ewyllysiau, anfonwch e-bost at legacies@alzheimers.org.uk neu cysylltwch â'n tîm Gofal Cefnogwyr ar

0370 011 0290